# Cenn@d

HYDREF 25 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 139

## Datganiad gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru am y sefyllfa yn y Dwyrain Canol

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru'n datgan pryder dwys ac yn condemnio pob gweithred o drais a dial. Safwn dros heddwch ac undeb, a gweddïwn dros y rhai sydd wedi dioddef yn sgil yr ymosodiadau yn Israel a Phalesteina – dioddefwyr sydd wedi eu dal ynghanol cylch treisgar o ddialedd.

Dywedodd y Parch. Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC: 'Mae angen i'r trais hwn ddod i ben nawr. Mae'r fath ddinistr a chreulondeb ar diroedd y Beibl yn bell iawn oddi wrth fywyd Iesu, tywysog heddwch. Galwn ar arweinwyr cenhedloedd i osod eu arfau i lawr a cheisio ffordd well. Mae EBC yn rhan o deulu byd-eang, y Cyngor Cenhadaeth Fyd-eang, sy'n cynrychioli dros 22 miliwn o Gristnogion ledled y byd. Rydyn ni'n sefyll gyda'n gilydd gyda brodyr a'n chwiorydd sy'n byw trwy amgylchiadau trychinebus.

Mae EBC yn adleisio geiriau ein brodyr a'n chwiorydd Cristnogol, y Patriarchiaid a phenaethiaid eglwysi yn Jerwsalem:

> Fel gwarchodwyr y ffydd Gristnogol a'n gwreiddiau'n ddwfn yn y Tir Sanctaidd, safwn ochr yn ochr â phobl yr ardal hon sy'n dioddef canlyniadau dinistriol gwrthdaro parhaus. Mae ein ffydd, sydd wedi ei seilio ar ddysgeidiaeth Crist, yn ein cymell i eiriol am ddiwedd i bob gweithred dreisgar a milwrol sy'n gwneud drwg i ddinasyddion Israel a Phalesteina ...
>
> Ein gobaith a'n gweddi daer yw y bydd pob ochr yn cymryd sylw o'r alwad hon am roi diwedd i'r trais ar unwaith. Plediwn ar arweinwyr gwleidyddol a'r awdurdodau i ddod at ei gilydd mewn trafodaethau cywir i geisio datrysiad tymor hir fydd yn hybu cyfiawnder, heddwch a chymod i bobl y wlad hon sydd wedi ysgwyddo baich gwrthdaro am gyfnod rhy hir o lawer.

## Gweddi am gymod yn Gaza

Dduw bywyd,

Deuwn o dy flaen gyda chalonnau trymion, gan geisio dy heddwch a dy gyfiawnder di ynghanol y gwrthdaro cynyddol yn Gaza.

Gweddïwn dros y rheiny sydd wedi eu hanafu a theuluoedd y rhai sydd wedi eu lladd, y rhai sydd â'u bywydau wedi eu darnio, a dioddefwyr y ffrwydrad yn yr ysbyty.

Dyro iddyn nhw i gyd dy nerth a dy gysur, cysgod rhag niwed, a chaniatâ i'r rhai ifanc yno i dyfu mewn byd yn rhydd o drais.

Gweddïwn ar i gyfiawnder fod yn drech nag anghyfiawnder, ac y caiff llais dy bobl di yn nhiroedd Gaza ei glywed.

Helpa ni i gofio bod pob bywyd yn sanctaidd, ac yn ein hymchwil am heddwch a chyfiawnder, bydded inni weld urddas cynhenid pob un o'th blant.

Caniatâ ddoethineb a thrugaredd i'r holl bobl yn Israel a Phalesteina fel y byddant yn canfod y llwybr at heddwch parhaol.

Cyfnertha benderfyniad a dyfalbarhad y rhai sy'n ceisio gwneud heddwch, yn agos ac ymhell, wrth iddyn nhw weithio'n ddiflino i adeiladu pontydd o obaith am fywyd newydd o ffyniant.

Arglwydd, trugarha!

Yn enw Iesu y gweddïwn. Amen.

Gellir darllen datganiad CWM yn llawn yma.

## Gweddi dros bobl Israel a Phalesteina

(addasiad gan Denzil I. John o weddi gan Lynne Green Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr)

Arglwydd Dduw,
mewn braw ac arswyd tystiwn i drais distrywiol a cholli bywyd
yn Israel a Phalesteina dros y dyddiau diwethaf.

Deuwn atat fel ffynhonnell pob diddanwch
gan ofyn i Ti anfon dy Ysbryd i gynnal a chwmpasu
pawb sy'n galaru,
pawb sy'n dioddef,
pawb sydd mewn ofn,
pawb sydd wedi eu cipio a'u carcharu.
Boed i freichiau cysur a chydymdeimlad drechu breichiau rhyfel.

Deuwn atat fel ffynhonnell pob tangnefedd
gan ofyn i ti anfon dy Ysbryd
i gryfhau a chadarnhau'r sawl sy'n gweithio o blaid diwedd y trais,
cryfhau'r sawl sydd â chalon o blaid gwirionedd a chyfiawnder,
a chryfhau lleisiau doethineb ac ymatal.
Boed i olau heddwch a chymod oresgyn tywyllwch y chwalfa fawr.

Deuwn atat fel ffynhonnell pob gobaith,
yn gofyn i Ti anfon dy Ysbryd i ddwyn dyfodol,
lle bydd cymdogion yn cofleidio er eu gwahaniaethau,
lle bydd cariad yn trechu casineb,
gwyleidd-dra yn goresgyn balchder,
a lle bydd maddeuant yn cael ei drysori fel grym sylfaenol.
Boed i obaith y dydd lle bydd arfau gwrthdaro
yn troi'n arfau cymod yn fuan,
fel na fydd mwy o farwolaeth a galaru, crio na phoen,
er mwyn i'r hen drefn ildio'i lle i ffordd newydd o gyd-fyw.
Amen.

Rhifyn Hydref o'r Traethodydd yn talu teyrnged i'r cyn-olygydd Dr Brynley F. Roberts
**Tudalen 3**

Dathlu yng ngofalaeth y Garn
**Tudalen 5**

Gwasanaeth – 'Efengyl Tangnefedd'
**Tudalen 8**

# Bwletin Polisi Cytûn (Hydref–Tachwedd)

Ym Mwletin Polisi Cytûn y tymor hwn fe geir gwybodaeth am ymdrechion i sefydlu Sul Cofio Covid a mannau yng Nghymru fydd yn cael eu neilltuo ar gyfer cofio effaith ac ôl Covid arnom.

Ceir erthygl ar y diweddaraf o ran beth y gall yr eglwysi ei wneud i weithredu ar Newid Hinsawdd a dolen i sgwrs am gaplaniaeth carchardai gan yr Hybarch Jamer Ridge, Caplan Cyffredinol Carchardai a Gwasanaeth Prawf Ei Fawrhydi.

Bu Cytûn wrthi ers tro bellach yn ymchwilio i hanes y ddeiseb heddwch a anfonwyd gan eglwysi Cymru yn sgil deiseb merched Cymru ym 1924. Hon oedd y weithred eciwmenaidd Gymreig gyntaf ar ôl datgysylltu'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru. Ceir peth cefndir yn y rhifyn presennol ac edrychwn ymlaen at ragor o gofio eciwmeniaeth ac ymdrechion heddwch yr eglwysi yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd nesaf yma.

Ceir gwybodaeth am nifer o faterion polisi pwysig ac am sgwrs a gynhelir yn y Senedd gan y Farwnes Finlay o Landaf, aelod o Dŷ'r Arglwyddi, Athro Anrhydeddus Meddygaeth Liniarol, Prifysgol Caerdydd, ar 15 Tachwedd am y ddadl dros gymorth i farw.

I ddarllen y bwletin cyfan, cliciwch ar y ddolen: https://www.cytun.co.uk/hafan/bwletin-polisi-hydref-tachwedd-2023/

## Annie Cwrt Mawr

**Drama un ferch yn seiliedig ar fywyd Annie Jane Hughes Griffiths, ymgyrchydd dros heddwch a roddodd lais i fenywod Cymru ar gydraddoldeb a materion rhyngwladol.**

Awdur: Siwan Jones
Cyfarwyddwr: Janet Aethwy
Cast: Anni Dafydd



Gellir cael manylion am y daith sy'n digwydd drwy Gymru hyd 17 Tachwedd drwy ddilyn y ddolen hon i wefan y cwmni drama 'Mewn Cymeriad': Annie Cwrt Mawr | Mewn Cymeriad

# Llywydd newydd Synod Cenedlaethol Cymru, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig



Mae'r Parch. David Salsbury wedi'i enwebu i wasanaethu fel Llywydd Synod Cenedlaethol Cymru, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (EDdU), ar ôl i'r Parch. Simon Walkling symud i fod yn weinidog ar ofalaeth Abertawe ym mis Medi.

Cafodd David ei ordeinio yn 2000 ar ôl hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg Westminster yng Nghaergrawnt, gan raddio gyda gradd Baglor Diwinyddiaeth ar gyfer Gweinidogaeth o Brifysgol Caergrawnt.

Ers 2018 mae wedi gwasanaethu fel Rheolwr Stepwise a'r Rhaglen Dysgu Digidol i'r Eglwys Ddiwygiedig ac mae'n aelod o'r tîm Addysg a Dysgu yn Church House.

Dechreuodd David ar ei weinidogaeth yn gwasanaethu dwy eglwys yn Abertawe cyn symud i ogledd Cymru yn 2005 i fod yn Weinidog ar eglwysi Dyserth a Threffynnon a Swyddog Hyfforddiant a Datblygu (Gogledd) Synod Cenedlaethol Cymru.

Tra oedd yn y gogledd gwasanaethodd hefyd fel Cynullydd y Pwyllgor Bugeiliol Rhanbarthol ac, am bum mlynedd, fel llywodraethwr Coleg y Gogledd ym Manceinion.

Wrth siarad am ei enwebiad, dywedodd David ei fod yn 'llawn cyffro ac yn ostyngedig' o gael ei alw i ddychwelyd i'r weinidogaeth fugeiliol gan wasanaethu fel Llywydd Synod Cenedlaethol Cymru.

"Bydd yn fraint enfawr gweithio ochr yn ochr â Thîm Cefnogi'r Synod, eglwysi, gweinidogion, lleygwyr a phartneriaid eciwmenaidd wrth i ni gyda'n gilydd ddirnad dyfodol Duw i'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru, gwasanaethu ein cymunedau a pharhau i ddysgu beth mae'n ei olygu i fyw fel disgyblion Iesu," meddai.

Mae cyfraniadau ehangach David i'r Eglwys wedi cynnwys gwasanaethu fel Ysgrifennydd Pwyllgor Cydraddoldeb yr URC ers 2017, ac mae'n aelod o un o'r grwpiau gorchwyl sy'n datblygu hyfforddiant fel rhan o ymrwymiad yr Eglwys Ddiwygiedig i ddod yn eglwys wrth-hiliaeth. Ers 2020 mae hefyd wedi bod yn Gydlynydd Rhaglen Arweinyddiaeth Eglwysig yr enwad.

Yn ei amser hamdden mae David yn mwynhau cerdded, nofio ac ychydig o seiclo 'tywydd teg'. Mae'n gefnogwr brwd o Glwb Pêl-droed Lerpwl, ac ar ôl byw yng Nghymru am 23 mlynedd mae'n gefnogwr mabwysiedig i dîm Rygbi Cymru.


Dywedodd Megan Pryce, Clerc Synod Cenedlaethol Cymru: "Rydym wedi elwa o weinidogaeth feddylgar David yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Rydym wrth ein bodd ei fod wedi derbyn yr alwad i wasanaethu fel Llywydd newydd Synod Cenedlaethol Cymru ac edrychwn ymlaen at ei groesawu i'r tîm a chymryd y cam nesaf gyda'n gilydd."

Dywedodd y Parch. Philip Brooks, y Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol (Cenhadaeth): "Mae'n bleser mawr gen i longyfarch David ar ei enwebiad fel Llywydd Synod Cenedlaethol Cymru. Bydd David yn dod ag ehangder o brofiad i'r rôl hon, gan symud ymlaen o'i swyddi yn Church House.

"Mae David wedi cyflawni ei weinidogaeth yng Nghymru, mewn gofalaethau lleol, fel caplan ac mewn rolau hyfforddi, a bydd pob un o'r rhain yn ei ysbrydoli fel Llywydd. Wedi gwasanaethu gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb, mae David hefyd yn dod ag angerdd dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'r swydd."

# Rhifyn Hydref o'r *Traethodydd* yn talu teyrnged i'r cyn-olygydd Dr Brynley F. Roberts

Mae'r rhifyn cyfredol o'r *Traethodydd* yn talu teyrnged i un o'n cymwynaswyr mawr, sef y diweddar Ddr Brynley F. Roberts, cyn-olygydd y cylchgrawn, a fu farw yn ystod yr haf. Bu Bryn yn olygydd *Y Traethodydd* rhwng 1999 a 2016 ac ef a osododd y seiliau ar gyfer y cylchgrawn o ddechrau'r ganrif hon ymlaen.



Brynley Francis Roberts
1931–2023

Yn ogystal â gair o werthfawrogiad gan y golygydd presennol, ceir teyrngedau gan Robert Rhys, yn sôn am flynyddoedd Bryn fel Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe yn ystod saithdegau ac wythdegau'r ganrif ddiwethaf a chan Mary Burdett-Jones, sy'n tafoli ei gyfraniad fel ein Llyfrgellydd Cenedlaethol. Mae Delyth Morgans Phillips, awdur *Cydymaith Caneuon Ffydd*, yn trafod ei waith fel cyfarwyddwr a golygydd y llyfr emynau pwysfawr a enillodd ei le'n rhyfeddol o ddidrafferth ymhlith addolwyr yr eglwysi, ac mae'r Athro Gruffydd Aled Williams yn canolbwyntio ar waith Bryn fel golygydd *Y Traethodydd*, y gyfres gyfrolau 'Dawn Dweud' a'r *Bywgraffiadur Cymreig*, ymhlith mentrau eraill.

Mae mwy nag un o'r awduron yn tanlinellu pa mor eang oedd ei ddiddordebau academaidd, o'r Canol Oesoedd hyd at y cyfoes, ac yn talu sylw i'w gampwaith ar Edward Lhwyd, y naturiaethwr a'r hynafiaethwr, a gyhoeddwyd y llynedd ac y cafwyd adolygiad manwl arno yn rhifyn diwethaf *Y Traethodydd*. Gan na fynnai Bryn dynnu dim sylw ato'i hun, bu angen ein hatgoffa pa mor allweddol fu ei gyfraniad i'n bywyd diwylliannol a chrefyddol am gyhyd a chymaint yw'r golled a adewir ar ei ôl. Anrhydedd, felly, yw talu gwrogaeth hael iddo yn y rhifyn hwn.

Ar wahân i'r uchod, prif erthygl y rhifyn yw darlith hynod gyfoethog y Dr Rosa Hunt, cyd-bennaeth Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, a gweinidog eglwys y Tabernacl yn y brifddinas, sy'n trafod y cysyniad o gyfieithu yn ein crefydd. Nid cyfieithu'r Ysgrythurau o'r ieithoedd gwreiddiol, yr Hebraeg a'r Groeg, i Saesneg neu Gymraeg yn unig sydd ganddi, ond y cysyniad fod Duw ei hun wedi'i ddatguddio'i hun mewn Gair sydd yntau'n gyfieithiad o'i fwriadau achubol i'n teithi dynol ni.

Fel yn achos darlith Rowan Williams y llynedd (a ymddangosodd yn rhifyn Ionawr o'r *Traethodydd*), fe'i traddodwyd fel darlith flynyddol Urdd Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, ac mae'n gyforiog o amgrymiadau hynod berthnasol ynghylch natur ein hiaith addoli a'r heriau cenhadol sy'n bod mewn cymdeithas amlieithog. Nid un Gymraeg sy'n bod bellach ond llawer, yn adlewyrchu amrywiaeth gymhleth y Gymru gyfoes, ac mae'r dadansoddiad treiddgar a gwybodus hwn yn cynnig arweiniad inni ynghylch sut i ymateb i hynny. Mae'r awdur, sy'n frodor o Ynys Malta, yn llais newydd a chyffrous yn y Gymru Gymraeg, a mentrwn broffwydo y daw'n fwyfwy amlwg dros y blynyddoedd nesaf. Ceir sôn am ei phererindod yn yr ysgrif, ac anogwn bawb i ddarllen yr ymdriniaeth hon a'i hystyried yn ddwys.

Nid yw'r beirdd wedi'u hanwybyddu yn y rhifyn hwn, a phleser yw cael cyhoeddi cerddi newydd gan Derec Llwyd Morgan a cherdd arall gan yr amryddawn D. Ben Rees. Yna ceir y cyfraniad olaf yng nghyfres ddiddorol Pryderi Llwyd Jones ar feirdd y ffin. George Herbert a Thomas Traherne oedd y ddau fardd cyntaf ganddo, a'r tro hwn mae'n cwblhau ei astudiaeth drwy sôn am y Cymro Cymraeg a'r bardd gwych hwnnw, Henry Vaughan 'y Silwriad'. Gwnâi'r gyfres hon o ysgrifau, o'u casglu ynghyd, gyfrol ardderchog a fyddai'n gaffaeliad i'n bywyd diwylliannol. I gloi'r cwbl mae'r Golygydd yn cynnig arweiniad i feddwl a gwaith un o ddiwinyddion pwysicaf ail hanner yr ugeinfed ganrif a dechrau'r ganrif hon, sef Jürgen Moltmann. Gobaith yw thema'r ysgrif, sy'n seiliedig ar ei waith mawr cynnar, *Diwinyddiaeth Gobaith* (1967).

Yn ôl ein harfer, anogwn bawb nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn o'r *Traethodydd*, ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

**EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU**
**Henaduriaeth South East Wales**

## Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol

Mae Henaduriaeth South East Wales Eglwys Bresbyteraidd Cymru am benodi Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol i hyrwyddo gweinidogaeth plant, ieuenctid a theuluoedd, i roi cyfle i ddarganfod a dilyn Iesu Grist.

**Oriau:** 21 awr yr wythnos, gyda gweithio hyblyg i gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau
**Cytundeb:** 3 blynedd gyda'r 6 mis gyntaf yn gyfnod prawf
**Cyflog:** £24,726 i £26,949, band 22–26. Gall y band gynyddu hyd at £27,504–£29,727, band 27–31, yn dibynnu ar lefel y cymwysterau a'r profiad
Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
**Lleoliad:** Gweithio o gartref ac yn Henaduriaeth South East Wales.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:
e-bost – Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru
Ffôn – 02920 627465

**Dyddiad Cau: 3 Tachwedd 2023 am 4yp.**

# Calan Gaeaf a Goleuni Crist – cyfle i eglwysi ddangos y ffordd

'Mae'r golau'n dal i ddisgleirio yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddiffodd.' (Ioan 1:5)

Erbyn hyn mae gŵyl Calan Gaeaf wedi tyfu i fod yn un o'r prif wyliau sy'n cael eu dathlu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, ac yn fasnachol yn werth bron cymaint â chyfnod y Pasg i siopau. Fe welwn archfarchnadoedd yn llawn o fygydau a phob math o geriach wedi eu creu i achosi ofn a dychryn. Mae'n ŵyl Americanaidd sy'n pwysleisio'r tywyll a'r dychrynllyd, gan orfoleddu mewn ofn a marwolaeth. Mae'r dathliadau yng Nghymru wedi cynyddu'n rhyfeddol dros y degawd diwethaf, ac mae'n siŵr gen i y bydd plant yn galw heibio gyda'r 'trick or treat' a bydd llawer iawn o bartïon a disgos plant hefyd yn cael eu cynnal mewn pentrefi a threfi ledled Cymru.

Fel eglwysi, rydym yn naturiol yn bryderus am yr effaith negyddol mae hyn yn ei gael ar fywydau plant, ac yn poeni hefyd am yr henoed sy'n cael eu dychryn gan yr ymwelwyr dieflig. Ein hymateb ar y cyfan felly yw anwybyddu'r holl beth. Ond cofiwn hefyd fod y cyfnod yma'n Ŵyl yr Holl Saint, a bod llawer y gallwn ei wneud fel unigolion ac eglwysi i atgoffa ein cymdeithas mai gwell o lawer yw byw yn y goleuni na chuddio yn y tywyllwch.

### Rhannu ychydig o Newyddion Da

Fel unigolion, beth am i ni agor y drws i blant a fydd yn galw, gan rannu rhywbeth o newyddion da Iesu Grist gyda nhw? Fe fydd plant yn gobeithio cael losin neu fferins, ond yn ogystal â rhoi fferen neu losinen neu ddwy iddynt, beth am roi llyfryn Cristnogol neu gomig Cristnogol iddynt yn ogystal? Mae gennym gomig, yn dwyn y teitl *Stori Fawr Duw*, sydd ar gael i'w brynu am 50c yr un, sy'n pwysleisio bod Iesu yn oleuni'r byd. Neu, mae modd cael copi o Efengyl Marc, beibl.net, hefyd am £1 yr un, sy'n addas i'w rhannu.

### Beth am fynd ati i drefnu dathliad ar gyfer plant?

Mae pecyn unigryw o adnoddau ar gael ar gyfer cynnal 'Parti Goleuni' – yn llawn syniadau am gemau a gweithgareddau'n sôn am Iesu fel goleuni'r byd. Yn hytrach na dychryn plant a'u cyflwyno i bethau tywyll a dieflig, dyma adnodd sy'n ein helpu i gyflwyno newyddion da. Yn y pecyn, ceir nifer o syniadau ar sut i gynnal noson hwyliog gyda phlant, yn llawn crefft, gemau a gweithgareddau. Gellir lawrlwytho'r pecyn adnoddau a ffilm fer, *Iesu yw'r Goleuni*, yn seiliedig ar gerdd wedi ei haddasu i'r Gymraeg gan Delyth Wyn, drwy glicio ar https://ysgolsul.com/?page_id=5728

Mae modd prynu copïau o'r llyfr yn Gymraeg hefyd o wefan www.scriptureunion.org.uk am bris arbennig o £12.50 am 10 llyfr.

*Aled Davies*
*Cyhoeddiadau'r Gair*




# Encil Chwiorydd Sasiwn y De, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Ddydd Iau, 21 Medi, daeth nifer dda ynghyd i'r encil blynyddol a gynhaliwyd am yr ail flwyddyn yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin, gyda'r gobaith o ddychwelyd i Drefeca yn y dyfodol.

Yr arweinydd am y dydd oedd y Parchedig Isaias Grandis sy'n Weinidog ar dair eglwys yn ardal Llanelli, sef Adulam, Felin-foel; Salem, Llangennech a Seion, Llanelli.



Yn dilyn y croeso a chyd-ddarllen y Datganiad Cenhadol, cafwyd defosiwn byr oedd yn cynnwys dau ddarlleniad. Roedd y cyntaf o Efengyl Mathew, Pennod 9, sydd yn terfynu â'r geiriau: 'Yna meddai wrth ei ddisgyblion, "Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwch felly ar Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf."'

Roedd yr adnod hon yn arwain yn addas iawn at hanes galwad Isaias a'i stori ryfeddol oedd yn arwain o Cordoba yn Ariannin, lle y ganwyd ef, i Drevelin ym Mhatagonia, lle y symudodd y teulu pan oedd yn fachgen, ac yna i Gymru ymhen blynyddoedd. Roedd y daith hon yn rhan o gynllun Duw ar ei gyfer. Roedd yn tystio i Dduw agor y ffordd iddo ddod i Gymru er pob rhwystr. Derbyniodd gymorth i feistroli'r iaith Gymraeg gan ennill Gwobr Dysgwr y flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym 2012, a nawdd ariannol o gyfeiriadau annisgwyl i'w gynorthwyo i deithio i Gymru. Erbyn hyn roedd yn adnabyddus yng Nghymru ac yn gymwys iawn i gael ei alw i fod yn Weinidog ar eglwysi yn Llanelli.

Mae gŵr ifanc arall o Batagonia, sef Mike Winter, hefyd wedi derbyn galwad i ddod i Gymru ac yn awr yn cynorthwyo Isaias gyda'r gwaith ymhlith ieuenctid.

Yn y prynhawn cafwyd arweiniad ar adnodau agoriadol y Llythyr at yr Hebreaid, Pennod 11: "Y mae ffydd yn warant o bethau y gobeithir andanynt ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld." Fel y rhai a enwir yn y bennod a fu'n byw eu bywydau trwy ffydd, roeddem y prynhawn hwnnw yn gweld fod Isaias yn yr un olyniaeth. Gosododd ddau gwestiwn i ni fyfyrio arnynt: Beth mae'n ei olygu i fod yn gangen o'r Wir Winwydden? a: Beth mae'n ei olygu i fod yn aros yn y Wir Winwydden? Roedd y cwestiynau hyn yn cysylltu hefyd â chyflwyniad Sarah Morris i thema ac adnoddau eleni – *Myfi yw'r Wir Winwydden* – yn y bore.

Roedd yn fraint cael cwmni Isaias am y dydd ac roedd mor gartrefol yn ein plith wrth i ni gymdeithasu o gwmpas y byrddau dros baned a phryd bwyd. Dymunwn yn dda iddo yn ei waith a phob bendith iddynt fel teulu – ef a'i wraig, Eluned, a'u dau fab, Llewelyn a Joseff.

Ar ddiwedd y dydd roeddem yn ymwybodol ein bod fel y canghennau'n derbyn maeth wrth aros yn y Wir Winwydden, ond bod angen i ni ddychwelyd i'n hardaloedd yn llawn ffydd a gobaith i ddwyn ffrwythau da ac i dystio i newyddion da Efengyl yr Arglwydd Iesu Grist.

*Eleri Davies (Llywydd)*
*Bethan Richards (Ysgrifennydd)*

# Dathlu yng ngofalaeth y Garn

Yr oedd Sul, 8 Hydref, yn ddiwrnod o hapusrwydd ac o ddathlu yng ngofalaeth y Garn (eglwysi'r Garn, Madog, Penllwyn, Capel Seion, a Rehoboth) yng ngogledd Ceredigion. Sylweddolwyd bod 2023 yn flwyddyn bwysig i dri gweinidog a fu'n gysylltiedig â'r ofalaeth: eleni, drwy gyd-ddigwyddiad hapus, yr oedd y Parchedig Ddr R. Watcyn James, gweinidog presennol yr ofalaeth, yn dathlu 40 mlynedd yn y weinidogaeth, y Parchedig Ddr John Tudno Williams, gweinidog gynt yng ngofalaeth gyfagos y Borth ac sy'n dal i wasanaethu'n ffyddlon ym mhulpudau ardal y Garn, yn dathlu 60 mlynedd yn y weinidogaeth, a'n cyn-weinidog y Parchedig Wyn Rhys Morris yn dathlu 25 mlynedd ers ei ordeinio. Nid anghofiwyd ychwaith y byddai un arall o'n cyn-weinidogion, y Parch. Elwyn Pryse, yn dathlu cynifer â 70 mlynedd ers ei ordeinio y flwyddyn nesaf. Dyna yn ddiau fwy na digon o reswm i'r eglwysi ddathlu a nodi'r cerrig milltir arbennig yn hanes y pedwar gweinidog, gan ddiolch iddynt am eu gwasanaeth nodedig, bron 200 mlynedd o weinidogaethu ffyddlon a gwerthfawr o gyfrif hyd eu gwasanaeth gyda'i gilydd.

Dechreuodd y dydd gydag oedfa i'r ofalaeth yng Nghapel y Garn, Bow Street, dan arweiniad y Parch. Ddr R. Watcyn James. Cymerwyd rhan gan aelodau o bob un o eglwysi'r ofalaeth. Wedi'r oedfa ymneilltuwyd i Westy'r Marine yn Aberystwyth, lle ymgynullodd dros ddeugain o aelodau'r eglwysi i fwynhau cinio blasus gyda'u gwesteion. Llywyddwyd y gweithgareddau yn ddeheuig a hwyliog gan Alwyn Hughes, Cadeirydd Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth. Cyflwynwyd pob un o'r gweinidogion yn eu tro, gyda geiriau pwrpasol a chynnes o werthfawrogiad gan Alan Wynne Jones, Alwyn Hughes, Eirian Hughes, a Roland Williams. Cyflwynwyd anrheg i'r pedwar gweinidog fel arwydd o'n gwerthfawrogiad ac i gofio'r achlysur, sef testun wedi ei fframio o soned a luniwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Vernon Jones ac a argraffwyd yn gain gan Huw Ceiriog, Llandre.

Yn dilyn y cyflwyniadau ymatebodd pob un o'r pedwar gweinidog yn eu tro, gan rannu rhai o'u hatgofion am eu cyfnodau yn y weinidogaeth ac yng ngwasanaeth yr ofalaeth. Cyflwynwyd blodau i'r Parchedig Judith Morris, Mrs Lowri James, a Mrs Ina Williams gan Ann Jones, Delyth Davies, ac Olwen Jones. Ymddiheurodd Mrs Bronwen Morgan, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Phenfro, am ei habsenoldeb anorfod, ond anfonodd gyfarchiad yn gwerthfawrogi'n gynnes gyfraniadau arbennig y pedwar a anrhydeddwyd.

Dyma'r soned o waith Vernon Jones a gyflwynwyd i'r pedwar gweinidog:



O'r chwith i'r dde: Y Parchedigion R. Watcyn James, Elwyn Pryse, John Tudno Williams a Wyn Rhys Morris



O'r chwith i'r dde: Ann Jones, y Parch. Judith Morris, Olwen Jones, Lowri James, Delyth Davies ac Ina Tudno Williams

### I'r Pedwar

Anrhydeddwn rai a droes yn anterth eu dydd
  I wynebu'r ogof heb ofni her y meini,
Ac ymbiliadau gweddi'n cryfhau eu ffydd,
  Gan dderbyn oddi fry i'w tywys y dwyfol oleuni.
Buont ddygn fugeiliaid i'w preiddiau yn nrysni'r tir,
  Erys eu bendithion dwys wedi'r ordinhadau,
A grym eu hargyhoeddiad drwy flynyddoedd hir
  O feithrin addoliad wrth allorau ein tadau a'n mamau.
Cenhadon efengyl cariad i'r ifanc a'r hen,
  Gwarcheidwaid dewr y ffydd heb laesu dwylo,
Yn taenellu'r Gair ar dir heb dorri'r ystên,
  A'u cenadwrïau taer yn cyson oleuo.
Yng ngwres y dathlu dymunwn iddynt barhad
I'w hoes o wasanaeth i'r Iesu a Duw, ein Tad.

*Vernon Jones*

*Gruffydd Aled Williams*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**

**Pennod 5**
**'Y Gair ar waith' – Lesotho Mathew 25:31–46 | 29 Hydref**




### Gweddi

Arglwydd yr eangderau a Duw tragwyddoldeb, addolwn di am gyffwrdd â'n hamgylchiadau a'n hamseroedd, gan ddolennu pobl â'i gilydd. Dyro i ni weld y dolennu hwn fel rhan o'n haddoliad a'n hargyhoeddiadau ysbrydol, ac yn wedd ar ein bywyd eglwysig. Amen.

### Darlleniad: Mathew 25:31–46

### Cyflwyniad

Pan ymatebodd y Tabernacl, Caerdydd, yn gadarnhaol i'r gwahoddiad i efeillio â'r Lesotho Evangelical Church (LEC) yn Sefika, roeddem yn ffodus fod Non a Gwenallt Rees yn gyfarwydd â Lesotho ac yn hapus i arwain y prosiect. Fe roddodd y ddau bymtheng mlynedd ymdrechgar i ddatblygu'r cyswllt, a hynny ar gost sylweddol iddynt eu hunain. Oni bai am eu hymdrech, prin y byddai'r fenter wedi bod mor llwyddiannus. Nid yw ein geiriau o werthfawrogiad yn ddigonol, ond roeddent yn falch o'r cyfle i roi'r 'Gair ar waith' ac yn trysori'r profiadau cyfoethog a ddaeth i'w rhan.

Elfen bwysig yn y prosiect hwn oedd gweld cefnogaeth eglwysi eraill yn rhannu yn y gwaith, a bu Non a Gwenallt yn gwneud cyflwyniadau mewn eglwysi ac ysgolion, a hwythau yn eu tro'n dolennu yn y gwaith ac yn cyfrannu'n gyson yn ariannol i'r fenter. Cydnabyddwn hynny yn llawen ac yn ddiolchgar.

Bydd pawb sydd wedi gwrando ar eu stori ac ymddiddori yn y prosiect yn sylweddoli bod brwdfrydedd eglwysig y cyfeillion yn Sefika wedi bod yn ysbrydoliaeth i ni. Mae'n anodd amgyffred sut mae'r gynulleidfa yno'n cefnogi ei gilydd ac yn gweld llaw Duw ym mhob man a hynny er daioni.

### Myfyrdod

Aeth yn ffasiwn i ddweud na ddylai'r eglwysi ymwneud â materion gwleidyddol yn gyffredinol, ac mai gwaith yr eglwys yw canolbwyntio ar addoliad – yr eglwys oddi mewn i'r adeilad. Ond gwelir mai un o nodweddion yr eglwys yn gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn yw ei bod wedi ymestyn allan a dwyn sylw at anghyfiawnderau byd a sefyll ochr yn ochr â'r gwan a'r gorthrymedig. Daw cyfleoedd eto i nodi enghreifftiau o hyn yn y gyfres bresennol o fyfyrdodau, ond wrth ddathlu llwyddiant y prosiect hwn gydag eglwys LEC Sefika yn Lesotho, gwelwyd sut mae angen nawdd gydag addysg, amaethyddiaeth, meddygaeth a bwyd i roi'r Gair ar waith mewn mannau pellennig nad ydynt yn cael sylw'r wasg Brydeinig. Pryd y gwelwyd erthygl yn y wasg Brydeinig am argyfyngau Lesotho? Sawl ardal arall na wyddom ddim amdanynt sy'n angof o safbwynt gwledydd cyfoethog y gorllewin?

Ai cyd-ddigwyddiad gweinyddol a arweiniodd at ein cyswllt ni gyda Sefika, a digwydd bod i Gwenallt a Non Rees fod yn aeddfed i hyrwyddo'r cyswllt? Neu a welwn law Duw ar waith, a bod pob aelod o'r eglwys angen gofyn sut fydd Duw am ein defnyddio ni yn rhwydwaith gofal ei gynllun tragwyddol ef? Rydym yn holi'n weddigar pwy fydd yn synhwyro y gallent barhau'r gwaith wrth i Gwenallt a Non gydnabod na allant ymrwymo i fod yn weithredol fel arweinwyr bellach. Ar ysgwydd pwy mae llaw Duw yn gorffwys mewn perthynas â'r gwaith hwn, tybed?

### Gweddi

Arglwydd y cenhedloedd oll, diolch am arwain y Tabernacl i berthynas â'r eglwys yng nghanol dinas Maseru yn Lesotho. Gwerthfawrogwn y gwaith a wnaed eisoes, a gweddïwn am weld rhywrai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fod yn ddolenni ymarferol i'r dyfodol. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Bu haelioni a lletygarwch yn nodweddion cyson ym mywydau Iddewon a Christnogion, ond a ellir tystio i ffydd bersonol heb ei gweithredu, neu a yw bywyd gweithredol dda yn ddigon ac nad oes angen manylu ar natur ffydd ac arfer addoliad yn gyson?
2. Galwodd Martin Luther ac eraill Epistol Iago yn 'epistol o wellt', gan nad oedd ei chynnwys yn dweud llawer am gyfiawnhad drwy ffydd. Beth yw'r perygl o arfer ffon fesur debyg wrth ddarllen a myfyrio ar y Beibl?
3. Ymateb i wahoddiad Undeb Bedyddwyr Cymru wnaeth Eglwys y Tabernacl, ond teimlodd Gwenallt a Non fod Duw yn agor drws iddynt. A fyddwch chi yn eich eglwysi'n gwrando ar lais Duw i'ch arwain i brofiadau a chynlluniau annisgwyl a chyffrous, newydd?
4. Roedd dysgu am Lesotho yn ysbrydoliaeth i amryw yn y Tabernacl. Pa fath o sefyllfa eglwysig dramor y carech ddeall mwy amdani?
5. Mae economi Lesotho yn heriol, y cynaeafau'n methu, ac eto, mae llawenydd yn eu cymunedau. Pam mae pobl Ewrop a Chymru yn benodol mor gwynfanllyd, yn hunanol ac yn ymbellhau o fywyd eglwys?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 29 Hydref, am 7.30 yh**

***Corff, Meddwl ac Enaid***
Bydd Lisa Gwilym ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gwrdd â'r Parchedig Dylan Rhys, hen ffrind o'r gyfres *Ffit Cymru* sydd wedi trawsnewid ei fywyd – corff, meddwl ac enaid. Cawn wledd o ganu mawl a mwynhau perfformiad hudolus gan Rebecca Trehearn.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 29 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Eileen Davies

**Sul, 29 Hydref, am 12yp**
Bydd Trystan Owain Hughes yn arwain oedfa arbennig ar Sul Adferiad

# Trwy Law a Llun

STORIEL

30 Medi–30 Rhagfyr 2023
Ail arddangosfa o waith Cefyn Burgess yn Storiel, Bangor, yn seiliedig ar ei deithiau i Ogledd-ddwyrain India

Darluniau cyfoes mewn inc, print a phwythau o Fryniau Casia a geir yn yr arddangosfa. Mae'n dilyn yr arddangosfa gyntaf *Tu ôl i'r Blwch* a gynhaliwyd flwyddyn yn ôl gan roi cyfle i godi cwr y llen ar y berthynas hon rhwng Cymru a Gogledd-ddwyrain India ers dyddiau'r cenhadon Cymreig a'r blychau cenhadol oedd mor gyfarwydd i deuluoedd ledled Cymru.

Casgliad newydd o waith yw hwn, yn dilyn ymweliadau astudio pellach i'r ardal gan gyfeirio at lythyrau gwreiddiol unigolion a fu'n nyrsio yno dros y blynyddoedd, yn yr Ysbyty Cenhadol Cymreig yn Shillong sy'n cael ei adnabod bellach fel Ysbyty Dr H. Gordon Roberts. Mae'r arddangosfa yn rhan o brosiect cyfredol i ddarganfod y cysylltiadau rhwng pobl Cymru a phobl Khasi Gogledd-ddwyrain India.

Meddai Cefyn Burgess:

"Mae *Drwy Law a Llun* yn camu i mewn i fywyd y nyrs Beryl Edwards a'r brif weinyddes nyrsio Margaret Owen yn Ysbyty Gordon Roberts, Shillong, yn y cyfnod rhwng 1945 ac 1947. Mae eu llythyrau at eu teulu a'u ffrindiau gartref yng Nghymru yn cofnodi ac yn creu delweddau byw o'u bywydau a'u profiadau ym mryniau Casia – yr amgylchedd, adeiladau a'r diwylliant pan oedd presenoldeb a dylanwad y Cymry ar eu hanterth. Mae eu geiriau hwy wedi fy ysbrydoli i edrych ar fy ymweliad â Shillong a'i gyflwyno fel ffurf arall ar ohebu, gan ystyried fy narluniau fel cardiau post: dyddiadur gweledol i gyfathrebu a rhannu'r hyn a welir ac a brofir gydag eraill. Mae pob cerdyn post yn gofnod o amser a lle sydd yn prysur ddiflannu a newid, hanes a thraddodiad yn cael eu ddisodli gan welliannau.


"Rwyf wedi ceisio cofnodi'r adeiladau hynny a'u hamgylchedd sydd o dan fygythiad a'u rhan yn stori Shillong. Mae nifer o adeiladau hanesyddol eisoes wedi eu colli ac yn diflannu gyda hwy mae rhai o'r delweddau a'r syniad o le a gofnodwyd yn y llythyrau. Fel yn y llythyrau, y ffotograffau a'r darluniau cynnar gan y cenhadon o Gymru oedd yn cofnodi eu bywydau yn Shillong, mae'r cardiau post yma'n dangos y newid yn y stori fel mae'n pylu ac yn diflannu ym mryniau Casia.

"Mae 'Drwy Law' yn cyflwyno'r bobl Khasi drwy'r pethau bob dydd maent yn eu creu, gan ddefnyddio bambŵ ac adnoddau naturiol y bryniau a'r coedwigoedd o'u hamgylch. Mae'r pethau hyn yn hardd, yn ymarferol ac wedi eu cynllunio a'u gwneud yn fedrus, ac mae iddynt symboliaeth ac ystyr diwylliannol sydd hefyd yn diflannu. Wrth gymryd y cam i gyflwyno'r stori 'Drwy Law' fel ffurf ar ohebiaeth, mae cyfeiriad fy llwybr i wedi newid, ac nid yn un sy'n gyfan gwbl ar sail hanes y Cymry ym mryniau Casia. Hwn fydd y cam nesaf i gyflwyno'r cyswllt rhwng Cymru a Bryniau Casia wrth gyflwyno'r stori drwy leisiau Khasi.

"Mae'r arddangosfa'n rhoi sylw i'r cyswllt sydd wedi bodoli rhwng dwy genedl ers dros 180 o flynyddoedd a'r posibiliadau o gydio mewn dyfodol sy'n rhannu diwylliant."

Fe fydd sgwrs am y gwaith gan Cefyn Burgess yn Storiel ar 27 Hydref am 2 o'r gloch.

Gyda chefnogaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, RICE ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru.



# Gwasanaeth – 'Efengyl Tangnefedd'

Yn y dwys ddistawrwydd,
Dywed air, fy Nuw;
Torred dy leferydd
Sanctaidd ar fy nghlyw. Amen.

### Emyn 844 – 'Efengyl tangnefedd'

Daw pobl at Iesu am sawl rheswm. Daw rhai mewn ffydd, gan obeithio derbyn. Daw eraill i'w faglu. Yn yr hanes hwn clywn am 'rhyw Roegiaid' yn dod at Philip, un o'i ddisgyblion. Pwy oedd y bobl hyn? Beth oedd eu cymhellion, a beth yn union oedden nhw eisiau? Mae esbonwyr yn cynnig sawl theori am arwyddocâd y rhai sy'n holi a'u cais, ond yr elfen bwysicaf yn ddiamau yw cyhoeddiad Iesu yn adnodau 23–6. Dyma a gaiff ein sylw yn ein gwasanaeth heddiw.

### Darlleniad: Ioan 12:20–26

Mae dau beth digon gwahanol i'w gilydd wedi bod ar fy meddwl i dros yr wythnosau diwethaf. Yn gyntaf, Cwpan Rygbi'r Byd. Peth ffôl fyddai ceisio dyfalu heddiw pwy fydd yn fuddugol yn y diwedd, ond fe wyddom ni fwy na thebyg *sut* y byddan nhw'n ennill. Fe fydd un pac yn drech na'r llall, un asgellwr ychydig yn fwy deheuig a chyflym nag asgellwr arall, un ciciwr ychydig yn fwy cywir.

Y peth arall, wrth gwrs, yw'r rhyfel yn Israel a llain Gasa. Rwy'n siŵr eich bod wedi'ch cythruddo gan y golygfeydd erchyll o ddioddefaint ar y ddwy ochr. Mae'n anodd edrych ar y newyddion a gweld y trais a'r dinistr. Ar y cyfryngau clywn sylwebwyr yn trafod y ffordd orau ymlaen – rhai'n trio tawelu'r dyfroedd, eraill yn mynnu hawl i ddial a rhyfela'n barhaus.

Mae gan ein cymdeithas broblem â phŵer. Rydyn ni'n dyrchafu harddwch, iechyd, eiddo, llwyddiant, a grym, gan gredu mai dyma lle gwelwn bobl yn eu gogoniant. Mae Crist yn dangos ffordd ragorach i ni – ffordd y groes, sy'n arwain at fywyd.

### Emyn 540 – 'Yng nghroes Crist y gorfoleddaf'

*Y gronyn gwenith*

'Mae'n amser i mi gael fy ngogoneddu', meddai Iesu, 'mae fy awr wedi dod'. Roedd y disgyblion wedi gweld ei wyrthiau – tybed sut fydd Iesu yn dangos ei rym a'i ogoniant yn ninas Jerwsalem? A fyddai'n arwain gwrthryfel, neu'n ysgwyd y ddinas â rhyw wyrth na welwyd ei thebyg erioed o'r blaen? Rhaid fod ei ddisgyblion wedi synnu wrth glywed y geiriau nesaf – 'os nad yw'r gronyn gwenith yn syrthio i'r ddaear ac yn marw, y mae'n aros ar ei ben ei hun; ond os yw'n marw, y mae'n dwyn llawer o ffrwyth'.

Iesu yw'r gronyn gwenith yn y darlun syml a thrawiadol hwn. Nid trwy ennill parch a chlod mae'n cael ei ogoneddu, ond trwy farw dros eraill. Awr ei ddioddefaint yw ei ogoneddiad; oriau'r groes yw ei fuddugoliaeth. Beth yw'r ffrwyth? Darllenwn ymlaen. Trwy gael ei ddyrchafu – ei godi'n uchel – bydd yn tynnu pawb ato'i hun (12:32). Trwy farw yn lle ei elynion mae'n agor ffordd i bob un sy'n ymddiried yno: 'Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion' (Ioan 15:13). Gadewch i ni droi at emyn sy'n myfyrio ar ddyfnder rhyfeddol y cariad hwn.

### Emyn 347 – 'Pa feddwl, pa 'madrodd, pa ddawn'

*Colli a chadw (24–6)*

Rhodd yw bywyd gan Dduw sy'n grëwr a chynhaliwr hael. Nid yw Iesu'n ein hannog i gasáu'r ffaith ein bod yn bodoli! Yn hytrach, mae'n rhoi ffordd arall o fyw i ni yn y byd hwn – bywyd yn ffordd y groes. Gallwn un ai garu pethau gwag na fydd yn fywyd i ni yn y pen draw, neu gallwn gerdded fel y cerddodd ef ar y ffordd sy'n arwain i fywyd.

Fel Cristnogion, fel eglwysi, mae gennym ni drysor i'w ddathlu a'i rannu – 'efengyl tangnefedd'. Pan roddodd Crist ei hun drosom ni, agorodd ffordd i heddwch â Duw. Mae'n ein galw i fod yn ddynoliaeth newydd ynddo, yng ngrym ei Ysbryd Sanctaidd – yn bobl sy'n byw a'i groes yn batrwm i'n bod, gan geisio lles eraill o flaen hunan-les, yn rhannu'r newyddion da amdano.

### Gweddi

Dad nefol, down atat ti â chalonnau llawn diolch. Diolch i ti am holl fendithion ein bywyd, ond diolch i ti yn fwy na dim arall am gariad yr Arglwydd Iesu. Diolch am un oedd yn haeddu pob clod ac anrhydedd, ond a ddewisodd gerdded y ffordd a arweiniai at y groes. Derbyn ein diolch a'n mawl am gariad mor fawr.

Maddau i ni am bob ffordd y mae ein balchder a'n cariad at ffyrdd ein byd yn ein baglu, ac am bob ffordd rydym wedi dibrisio dy ras. Yn dy drugaredd dilea ein camweddau a golch ni'n rhydd oddi wrth ein pechod, a nertha ni i fyw er dy fwyn di. Amen.

Fel gweddi dros ein byd gadewch i ni droi at **Emyn 855 – 'O Arglwydd grasol, trugarha/ a symud bla y gwledydd'**. Er bod y geiriau'n cyfeirio at helbulon ein byd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf mae'r neges yr un mor addas heddiw.

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru